**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA - L/CG/0052/19

29 Ionawr 2019

Annwyl Mick,

Diben y llythyr hwn yw rhoi gwybod ichi fy mod wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Rheoliadau Ystadegau'r DU (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019, fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 30A (RhS30A).

Rwy'n ysgrifennu hefyd i roi gwybod ichi nad wyf yn bwriadu cyflwyno cynnig i gynnal dadl am yr OS hwn yn yr achos hwn. Rwyf wedi gwneud y penderfyniad hwn ar sail y ffaith mai'r unig beth y mae'r OS hwn yn ei wneud yw cywiro diffygion mewn cyfraith a fydd yn codi oherwydd bod y DU yn ymadael â'r UE. Darpariaethau technegol eu natur sydd yn yr OS hwn, ac nid oes unrhyw wahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn yr achos hwn.

Mae RhS30A yn darparu y caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig i gynnal dadl am yr OS hwn. O ystyried faint o ddeddfwriaeth y mae'r Cynulliad yn ei ystyried, nid wyf yn credu y byddai dadl am yr OS hwn yn ddefnydd cynhyrchiol o amser gwerthfawr y Cyfarfod Llawn ac ni fyddaf yn ceisio cynnal dadl o'r fath.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.